Atal Tân Cymru
Firebrake Wales

Adolygiad Blynyddol 2011
Annual Review 2011

CROESO

Os mai blwyddyn gymysg oedd 2009/10 – blwyddyn o gadarnhau ac o newid – yna, blwyddyn o ganolbwyntio oedd 2010/11: oherwydd, er mai gweledigaeth Atal Tân yw fod pawb yng Nghymru yn cael y gefnogaeth briodol o ran diogelwch tân, rydym yn canolbwyntio ar dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl, a'r rhai y mae'n fwyaf anodd eu cyrraedd neu ddylanwadu arnynt gyda'r negeseuon diogelwch tân arferol.

Felly, rydym wedi parhau i ofyn i'r bobl yma beth fyddai'n eu helpu. Roedd llawer ohonynt yn cydnabod eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb am eu diogelwch tân eu hunain, ond yn nodi bod anghofusrwydd, ymddygiad diofal, neu fywydau anhrefnus yn aml yn rhwystro hynny. O ganlyniad, roeddent yn teimlo bod angen i ymyriadau effeithiol gadw eu hamgylchiadau unigol mewn cof, ac mai perthynas barhaus, lawn ymddiriedaeth sy'n debygol o fod yr allwedd i gadw unrhyw newidiadau a wneir.

Unwaith eto, yr ateb yw na allwn ni fynd i'r afael â'r broblem ar ein pennau ein hunain. Mae cydweithio yn gwneud synnwyr mewn llawer o ffyrdd: yn wleidyddol, mae wrth galon polisi cyhoeddus yng Nghymru; yn economaidd, mae gofyn i bob un ohonom wneud mwy gyda llai, a thrwy ddod at ein gilydd, gallwn gael mwy o adnoddau; yn bragmataidd, ni allwn fod yn y lle iawn ar yr adeg iawn yn dweud y peth iawn – ond mae'n debygol y gall rhywun arall.

"Nid rhyw ynys ddigyswllt yw dyn" meddai John Donne, ac wrth inni symud yn ein blaenau i amseroedd sydd hyd yn oed yn fwy heriol, mae'n gredo sy'n mynd i ddod yn fwy a mwy pwysig.

Helen Prior
Prif Weithredwr

Mike Chown
Cadeirydd

WELCOME

If 2009/10 was a hybrid – a year of consolidation and change – then 2010/11 has been a year of focus: for while Firebrake's vision is that all people in Wales have access to appropriate fire safety support, our focus is on targeting those most at risk, and those hardest to reach or influence with conventional fire safety messages.

So we continued to ask these people what it is that could help them. Many of them recognised that they shared the responsibility for their own fire safety, but noted that forgetfulness, reckless behaviour, or chaotic life-styles often got in the way. Consequently they felt that effective interventions would need to take account of their individual circumstances, and that ongoing trusted relationships were likely to be the key to their sustaining any changes made.

So once again the answer comes back, this is not a problem that we can tackle alone. Collaboration makes sense in all sorts of ways: politically it is at the heart of public policy in Wales; economically we are all being asked to do more with less, and joining forces can increase resources; pragmatically we cannot always be in the right place at the right time saying the right thing - but it is likely that someone else can.

It was John Donne who claimed that "No man is an island", and as we move forward into ever-more challenging times it is a tenet which is going to become even more important.

Helen Prior
Chief Executive

Mike Chown
Chair

Elusen genedlaethol fechan yw Atal Tân Cymru, sy'n annibynnol ar y tri Gwasanaeth Tân ac Achub, ond yn cydweithio'n agos â nhw.

Firebrake Wales is a small national charity, independent of, but working closely with the three Welsh Fire & Rescue Services.

Ein Cenhadaeth...

"Gostwng nifer yr achosion o farwolaeth ac anafiadau oherwydd tanau trwy godi ymwybyddiaeth o'r peryglon, darparu gwybodaeth am ddiogelwch, ac annog cydweithio rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, a hynny er mwyn gwneud Cymru yn wlad fwy diogel"

Our Mission...

"To reduce the incidence of deaths and injuries in fires by raising awareness of risks, providing safety information, promoting fire safety research and encouraging collaboration between the public, private and voluntary sectors to make Wales a safer place"

Diogelwch Tân yng Nghymru

Gwyddom fod:

Nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau mewn cartrefi yng Nghymru wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf, ond:

- gallai fod yn anos cynnal y gostyngiadau hyn;
- rhai pobl mewn mwy o berygl o gael eu hanafu neu farw mewn tân yn eu cartref;
- mae'r dystiolaeth yn tynnu sylw at ffactorau sy'n cynyddu'r risg, ond y ffordd y mae pobl yn gweithredu, yn peidio â gweithredu, ac yn ymateb i dân sy'n arwyddocaol o ran ei ganlyniadau

Credwn fod:

- gwir angen am gefnogaeth barhaus o ran diogelwch tân, a honno'n mynd i'r afael ag ymddygiad pobl mewn perthynas â rheoli risg tân, ac yn dylanwadu arno
- er mwyn cael newid parhaol, dylai'r cyfrifoldeb am ddiogelwch tân gael ei rannu
- dylai'r gefnogaeth fwyaf effeithiol o ran diogelwch tân fod yn hyblyg a phriodol i anghenion yr unigolyn

Felly, ein ffordd ni yw:

Targedu y rheini y mae tystiolaeth ymchwil yn dweud wrthym mai nhw yw'r mwyaf agored i niwed a/neu sydd wedi eu heithrio rhag y gefnogaeth diogelwch tân arferol

Ymgysylltu â chymunedau, sefydliadau ac unigolion er mwyn penderfynu ar ymyriadau diogelwch tân priodol, effeithiol a chynaliadwy, a'u cefnogi

Rhoi cefnogaeth ac ymyriadau diogelwch tân trwy ddarparu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth, addysg a threfniadau cydweithio

Improving Fire Safety in Wales

We know that:

Deaths and injuries in home fires in Wales have been decreasing over the last decade, but:

- sustaining these reductions may prove harder to achieve;
- some people are more at risk of being injured or dying in a fire in their home
- evidence highlights factors that increase risk, but it is people's actions, inactions and reactions to fire that are significant in relation to its consequences

We believe that:

- there is a real need for ongoing fire safety support that addresses and seeks to influence people's behaviour in relation to the management of fire risk;
- for lasting change to occur the responsibility for fire safety should be a shared one;
- the most effective fire safety support should be flexible and appropriate to the needs of the individual

We work to:

Target those who the research evidence tells us are the most vulnerable and/or excluded from conventional fire safety support

Engage with communities, organisations and individuals to determine and support appropriate, effective, and sustainable fire safety interventions

Deliver fire safety support and interventions through the provision of information, awareness raising, education, and collaborative working arrangements

Llwyddiannau yn 2010/11

Achievements in 2010/11

Y Gwanwyn – Roedd ail gam ein hymchwil cynradd gyda Chymdeithasau MIND a Thimau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol yng Nghymru yn ceisio adnabod ffyrdd effeithiol o ddarparu cefnogaeth diogelwch tân i'w cleientiaid trwy siarad yn uniongyrchol â nhw am eu canfyddiadau o'u risg tân eu hunain, a'u hymateb i ymyriadau diogelwch tân arferol.

Mai - 'Hyrwyddo Diogelwch Tân yn y Cartref: rhannu'r cyfrifoldeb'. Roedd y 3 digwyddiad rhanbarthol yn gyfle inni ddangos ein gwaith, a thynnu sylw at bwysigrwydd cydweithio a rhannu'r cyfrifoldeb.

Mehefin – Fe wnaeth cyflwyniad poster yng ngynadledd Diolgelwch Tân Ewrop godi ein proffil yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Yr Hydref – Fe wnaeth parhau i gydweithio gyda phartneriaid academaidd a sefydliadau ganiatáu inni gyfrannu at ymchwil cyfredol, a dysgu oddi wrtho, mewn meysydd mor amrywiol â chysylltiad risg tân â ffactorau eraill sy'n ymwneud â ffordd o fyw a ffactorau demograffig, ac effaith tanau yn yr awyr agored yng Nghymoedd y De.

Medi – Lansio proses atgyfeirio ar-lein sy'n ceisio gwella ymatebion diogelwch tân gan Atal Tân a'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed ac mewn risg uchel.

Y Gaeaf – Cymryd rhan arweiniol yn y gwaith o gydlynu ac ysgrifennu adolygiad y Cyd-grŵp Llosgi Bwriadol o *Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru (2007),* gyda'r bwriad o gefnogi a llunio strategaeth newydd (*Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru 2012-15*).

Hefyd, bu ein presenoldeb mewn amrywiaeth o gynadleddau a digwyddiadau **trwy'r flwyddyn** yn gymorth inni godi ymwybyddiaeth o'r negeseuon allweddol i gynulleidfaooedd allweddol, gan eu cefnogi gydag amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig ac ar y we, a deunyddiadau wedi eu targedu.

Spring – The second stage of our primary research with Welsh LMA's and CDAT's looked to identify effective ways of providing fire safety support to their clients by speaking directly to them about their perceptions of their own fire risk, and their reactions to conventional fire safety interventions.

May - 'Promoting Home Fire Safety in our Communities; a shared responsibility'. These 3 regional events were an opportunity for us to showcase our work and to highlight the importance of collaborative working and shared responsibility.

June – A poster presentation at the Europe Fire Safety conference raised our profile both nationally and internationally.

Autumn – Continued collaboration with academic and organisational partners allowed us both to contribute to and learn from current research into such diverse areas as the association of fire risk with other lifestyle or demographic factors, and the impact of wildfires in South Wales Valleys.

September – Launch of an on-line agency referral process which aims to improve fire safety responses from both Firebrake and the FRSs for vulnerable and high risk individuals.

Winter – Taking a leading role in coordinating and writing-up the Joint Arson Group's review of the *Wales Arson Reduction Strategy (2007)* with a view to supporting and drafting a new strategy (*Wales Arson Reduction Strategy 2012-15).*

Attendance at a range of conferences and events **throughout the year** also helped us to raise awareness of key messages to key audiences, backing them up with a range of written and web-based information and targeted materials.

Cyllid

O ble y daeth ein harian

Y Gwas. Tân ac Achub yng Nghymru	£ 105,000
Llywodraeth Cymru	£ 52,500
Arall	£ 1,124
Dynodwyd ar gyfer gweithgareddau Elusennol	£ 34,138
Prosiect Ymchwil 2009/2010	£ 15,500
CYFANSWM	**208,262**

Ar beth y gwnaethom ei wario

Llywodraethiant	£ 5,921
Gweithgareddau elusennol	£ 186,841
Prosiect Ymchwil	£ 15,500
CYFANSWM	**£208,262**

Ein sefylla ariannol gyffredinol

Dynodwyd ar gyfer cronfeydd wrth gefn	£ 125,000
Cronfeydd cyffredinol ac asedau sefydlog	£ 13,900
Dynoddwyd ar gyfer gweithgareddau elusennol	£ 55,862
CYFANSWM	**£194,762**

Cymerwyd yr wybodaeth hon o gyfrifon llawn 2010/11 Ymddiriedolaeth Diogelwch Tân Cymunedol Cymru (a elwir hefyd yn Atal Tân Cymru), a archwilwyd yn annibynnol gan Broomfield Alexander. Mae'r cyfrifon llawn, ynghyd ag adroddiadau'r Archwilwyr a'r Ymddiriedolwyr, wedi eu cyflwyno i ofal y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau, a gall y cyhoedd gael mynediad atynt.

Finances

Where our money came from

Welsh Fire & Rescue Services	£ 105,000
Welsh Government	£ 52,500
Other	£ 1,124
Designated for Charitable Activities	£ 34,138
Research Project 2009/2010	£ 15,500
TOTAL	**£208,262**

What we spent it on

Governance	£ 5,921
Charitable Activities	£ 186,841
Research Project	£ 15,500
TOTAL	**£208,262**

Our overall financial position

Designated for contingencies	£ 125,000
General funds and fixed assets	£ 13,900
Designated for Charitable Activities	£ 55,862
TOTAL	**£194,762**

This information was taken from the full accounts, 2010/11, for Wales Community Fire Safety Trust Ltd (known as Firebrake Wales), which were independently audited by Broomfield Alexander. The full accounts, along with the Auditors and Trustees reports are lodged with both the Charity Commission and Companies House and can be publicly accessed.

Edrych ymlaen...

- Rydym yn credu'n gryf bod angen i unigolion a chymunedau rannu'r cyfrifoldeb am ddiogelwch tân os yw'r newid i fod yn barhaol. Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein cryfder allweddol o ran trefnu trwy canolbwyntio ein gwaith ar ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau.

- Yn ogystal â'n gwaith presennol, bydd llif gwaith newydd a ddaw y flwyddyn nesaf yn arwain at greu ystod llawer mwy eang o hyfforddiant ac addysg diogelwch tân wedi eu targedu – er mwyn adlewyrchu anghenion gwahanol segmentau o'r gymuned na fyddai efallai yn gallu cael mynediad at raglenni addysg ffurfiol.

- Yn dilyn ymgyrch recriwtio hynod lwyddiannus yn ystod gaeaf 2010, rydym yn edrych ymlaen at groesawu ymddiriedolwyr newydd i'r sefydliad. Gydag ystod eang o sgiliau allweddol a diddordebau, rydym yn gwybod y byddant yn cryfhau'r elusen wrth gyflawni ei chenhadaeth a'i nodau yng Nghymru.

- Mewn adeg economaidd anodd, rydym yn parhau i geisio gael gwerth am arian, adnabod bylchau mewn darpariaeth a gwybodaeth, dysgu oddi wrth yr hyn sy'n gweithio, a bod yn berthnasol i flaenoriaethau ac agendâu partneriaid.

Looking forward...

- We passionately believe that if lasting change is to be achieved, individuals and communities need to share responsibility for fire safety. We will continue to utilise our key organisational strength by focusing our work on public and community engagement.

- In addition to our current work, a new workstream in the coming year will see the creation of a much wider range of targeted fire safety training and education - reflecting and addressing the needs of different segments of the community who may not be able to access formal education programmes.

- Following a hugely successful recruitment campaign in the winter of 2010, we look forward to welcoming our new trustees to the organisation. With a broad range of key skills and interests, we know that they will strengthen the charity in delivering its mission and goals in Wales.

- In tough economic times we will continue to strive to achieve value for money, identifying gaps in provision and knowledge, learning from what works and retaining a fit with the priorities and agendas of partners.

Tîm y Staff

Helen Prior, *Prif Weithredwr*
helen@firebrake.org
Kate Slowinski, *Cydlynydd Prosiectau a Phartneriaethau*
kate@firebrake.org
Richard Hall, *Cydlynydd Polisi ac Ymchwil*
richard@firebrake.org
Kathryn Eveleigh, *Cydlynydd Gwasanaethau Canolog*
info@firebrake.org

Staff team

Helen Prior, *Chief Executive*
helen@firebrake.org
Kate Slowinski, *Projects & Partnerships Co-ordinator*
kate@firebrake.org
Richard Hall, *Policy & Research Co-ordinator*
richard@firebrake.org
Kathryn Eveleigh, *Central Services Co-ordinator*
info@firebrake.org

Ymddidiedolwyr

Mike Chown, Cadeirydd
Steve Clarke, Ymddiriedolwyr Annibynnol
Adelaide Morgan, Ymddiriedolwyr Annibynnol
Syr Harry Jones, Ymddiriedolwyr Annibynnol (ymddiswyddodd Hydref 2010)
Rebecca Rosenthal, Ymddiriedolwyr Annibynnol (ymddiswyddodd Hydref 2010)
Simon Smith, Gwasanaeth Tân ac achub Gogledd Cymru
Richard Smith, Gwasanaeth Tân ac achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andrew Marles, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Cyng. Sharon Frobisher, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Cyng. Eurfyl Evans, Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cyng. Keith Hyde, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Trustees

Mike Chown, Chair
Steve Clarke, Independent Trustee
Adelaide Morgan, Independent Trustee
Sir Harry Jones, Independent Trustee (resigned October 2010)
Rebecca Rosenthal, Independent Trustee (resigned October 2010)
Simon Smith, North Wales Fire & Rescue Service
Richard Smith, Mid and West Wales Fire & Rescue Service
Andrew Marles, South Wales Fire & Rescue Service
Cllr. Sharon Frobisher, North Wales Fire Authority
Cllr. Eurfyl Evans, Mid and West Wales Fire Authority
Cllr. Keith Hyde, South Wales Fire Authority

Diolch i

Awdurdod Tân a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Awdurdod Tân a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Tân a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Broomfield Alexander, Unity Trust Bank, Dragon Business Supplies, Procopy, Supacleen, Menna Wyn, Beaufort Research, Vision 21 (Roots Gardening Project), CPS Office Systems, WCVA Pay Connect, N-Centiv, NRB Properties, PSU Technology Group

Thank you to

South Wales Fire Authority and Fire & Rescue Service, Mid and West Wales Fire Authority and Fire & Rescue Service, North Wales Fire Authority and Fire & Rescue Service, Broomfield Alexander, Unity Trust Bank, Dragon Business Supplies, Procopy, Supacleen, Menna Wyn, Beaufort Research, Vision 21 (Roots Gardening Project), CPS Office Systems, WCVA Pay Connect, N-Centiv, NRB Properties, PSU Technology Group

Atal Tân Cymru
Llawr Gwaelod
6 Hazell Drive
Casnewydd
NP10 8FY
www.ataltan.org
ff: 01633 654000

Firebrake Wales
Ground Floor
6 Hazell Drive
Newport
NP10 8FY
www.firebrake.org
t: 01633 654000

Rhif Cofrestru Elusen 1100964
Cwmni Cyfyngedig trwy Warant yng Nghymru 4556865

Charity number 1100964
Company Limited by Guarantee in Wales 4556865

Dilynwch ni!
Follow us!